

# YMUNWCH Â MUDIAD Y GANOLFAN GYFRAITH

**GWYBODAETH I WIRFODDOLWYR**



Grŵp Llywio  
Canolfan Gyfraith y Gogledd  
North Wales Law Centre  
Steering Group

# YN Y PECYN HWN

03

Cyflwyniad

04

Eich Cais

05

Ein Sefydliad

06

Mynediad at Gyfiawnder yng Ngogledd  
Cymru

07

Mudiad y Ganolfan Gyfraith

08

Ein Cynnydd

09

Canolfan Gyfraith y Gogledd



# CYFLWYNIAD

Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli gyda Grŵp Llywio Canolfan y Gyfraith Gogledd Cymru.

Gwirfoddolwyr yw conglfaen Canolfan Cyfraith lwyddiannus. Heb eu cyfraniad ni allwn gynrychioli ein cymunedau na chael ein tywys i'r rhai sydd â'r angen mwyaf brys.



Rydym wedi cynnwys esboniad o bwrpas Canolfan y Gyfraith, pam mae hyn yn hanfodol ar gyfer Gogledd Cymru, a'r camau yr ydym yn eu cymryd i'w wireddu.

Yn y dyfodol bydd gennym ystod eang o rolau ar gael ond rydym am gerdded cyn i ni redeg felly ein ffocws cyntaf yw'r rôl Llysgennad Digidol. Rydym yn rhagweld y bydd y canllaw hwn a'n cyfleoedd gwirfoddol yn tyfu wrth i'r prosiect ddatblygu.

Ydych chi'n cael eich ysgogi gan gyfiawnder cymdeithasol? Ydych chi eisiau brwydro dros degwch a chydaddoldeb i bawb? Oes gennych chi ddawn mewn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac eisiau defnyddio eich sgiliau ar gyfer achos sy'n bwysig i chi? Ymunwch â ni!

Mae Canolfan y Gyfraith yn cael ei lansio yng Ngogledd Cymru eleni i helpu i sicrhau bod pawb yn cael cyfle teg i geisio cyfiawnder. Mae Canolfannau'r Gyfraith yn defnyddio'r gyfraith fel arf i fynd i'r afael â thlodi ac anghydaddoldeb. Byddwn yn darparu cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol am ddim i bobl sydd ag anawsterau tai a phobl sy'n profi cam-drin domestig.

Bydd Llysgenhadon Digidol yn helpu i ddatblygu ein mudiad a bod yn wyneb ar-lein Canolfan y Gyfraith. Gallech gael cyfle i greu cynnwys ar gyfer ein gwefan, cylchlythyr digidol, LinkedIn a Twitter. Rydyn ni eisiau archwilio cyfleoedd ar lwyfannau eraill dros amser hefyd (meddyliwch am Facebook, TikTok ac Instagram). Os ydych chi'n rhywun sy'n llawn dychymyg, yn gymdeithasol ac yn poeni am bobl eraill, mae'r cyfle hwn yn berffaith i chi!

## Manteision a Buddion:

- Hyfforddiant llawn a chefnogaeth unigol i'ch ysbrydoli i greu.
- Byddwch yn rhan o hanes! Does dim Canolfan y Gyfraith wedi bod yng Ngogledd Cymru ers y 1970au a gallech fod yn rhan o greu un o'r newydd.
- Byddwch yn falch o fod yn rhan o fudiad – mae'r argyfwng costau byw yn golygu bod angen Canolfannau'r Gyfraith nawr yn fwy nag erioed.
- Gwyliwch eich creadigrwydd yn ysbrydoli'r gymuned.
- Datblygu presenoldeb ar-lein sy'n adlewyrchu'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu.

## Y Sgiliau sydd eu Hangen:

Rhestr ddymuniadau yw hon – ni fydd gan neb yr holl sgiliau hyn. Cysylltwch â ni os ydych chi'n teimlo bod gennych chi ddim ond un o'r sgiliau hyn, neu os ydych chi'n teimlo'n gyffrous iawn am y syniad o Ganolfan y Gyfraith yn eich gardd gefn.

• Profiad o redeg tudalen Facebook neu debyg ar gyfer grŵp cymunedol.

• Sgiliau cyfrifiadurol gwyb (meddyliwch am olygu fideos sylfaenol, addasu lluniau a phethau tebyg).

- Brwdfrydedd dros herio anghydaddoldeb.
- Dealltwriaeth o'r materion y mae pobl yn eu hwynebu.
- Personoliaeth gynnes a chyfeillgar i estyn allan at bobl o wahanol gefndiroedd.
- Siarad Cymraeg.
- Rhywfaint o brofiad uniongyrchol o'r mathau o broblemau y gallai ein cleientiaid eu hwynebu.
- Hyblygrwydd i weithio'n annibynnol neu fel rhan o dîm.

## How to apply:


Please send a copy of your CV along with a brief letter outlining what attracts you to this opportunity and our project, to [recruitment@nwlcasting.org.uk](mailto:recruitment@nwlcasting.org.uk).




# EIN SEFYDLIAD

Bydd ein tîm cyfreithiol newydd yn ymuno â'n sefydliad ar adeg cyffrous a thrawsnewidiol.

Ar hyn o bryd, rydym yn y Cam Datblygu, ac yn gweithredu o dan y strwythur canlynol:



Mae cymuned o wirfoddolwyr yn elfen sylfaenol o Ganolfannau Cyfraith a'n nod yw cael gwirfoddolwyr, gan gynnwys cyfreithwyr pro bono, fel rhan annatod o'r tîm ar draws y sefydliad.



# MYNEDIAD AT GYFIAWNDER YNG NGOGLEDD CYMRU

06



## CYFIAWNDER YNG NGHYMRU DROS BOBL CYMRU

Canfu adroddiad y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, “nad yw’r system bresennol yn diwallu anghenion pobl Cymru”.

Canfu:

**“Mae’r toriadau sylweddol a wnaed i gymorth cyfreithiol yn 2012 wedi cael effaith andwyol ar Gymru. Ni ellir cael mynediad priodol at gyfiawnder, sydd wedyn yn bygwth Rheolaeth y Gyfraith.”**

*“Yng Nghymru, mae nifer o feysydd wedi dod yn anialdir o ran cyngor – gyda chleientiaid yn gorfod teithio’n bell i gyrraedd eu cyfreithiwr agosaf”.*

**Jonathan Davies, Pennaeth Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru, yn ymateb i gyhoeddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru.**

Adolygiad y Comisiwn o’r system gyfiawnder oedd yr un cyntaf ers 200 mlynedd, a gosododd weledigaeth hirdymor ar gyfer ei dyfodol. Nododd fod angen economi gymysg o gymorth cyfreithiol, y trydydd sector a chyngor a chymorth pro bono.

**Credwn fod Canolfan Gyfraith yn elfen hanfodol o’r economi gymysg hon.**

# MUDIAD Y GANOLFAN GYFRAITH

MAE CANOLFANNAU CYFRAITH WEDI BODOLI ERS DECHRAU'R 1970AU AC YN GWEITHIO O FEWN EU CYMUNEDAU I AMDDIFFYN HAWLIAU CYFREITHIOL POBL LEOL.



Gan arbenigo mewn cyfraith lles cymdeithasol, mae ganddyn nhw wybodaeth fanwl am y problemau y mae cymunedau'n eu hwynebu. Maen nhw'n defnyddio'r wybodaeth hon i helpu pobl i achub eu cartrefi, cadw eu swyddi ac i amddiffyn eu teuluoedd.

**YN FWY NA DIM, MAEN NHW'N BODOLI I WELLA BYWYDAU BOB DYDD Y CYMUNEDAU MAEN NHW'N GWEITHIO YNDDYN NHW.**

Mae Canolfannau Cyfraith yn cynnig cyngor cyfreithiol, gwaith achos a chynrychiolaeth i unigolion a grwpiau. Gan sylwi ar dueddiadau a phroblemau lleol yn eu gwaith, maen nhw'n tynnu sylw atyn nhw i sicrhau newidiadau polisi angenrheidiol ac i atal problemau yn y dyfodol. Mae Canolfannau Cyfraith hefyd yn helpu i adeiladu capasiti o fewn cymunedau drwy hyfforddi a chefnogi grwpiau lleol ac addysgu pobl am y gyfraith a'u hawliau.



## MAE'R ADRAN HON YN CYNNWYS GWYBODAETH AM SEFYDLU, CYFLWYNO A GWEITHREDU'R PROSIECT.

**2018** Mae grŵp o gyfreithwyr a gweithwyr cyngor, o Ogledd Cymru a rhannau eraill o'r DU, yn cyfarfod ar daith i Eryri ac yn trafod mynediad at gyfiawnder yn y rhanbarth.

**2019-2021** Mae Rhwydwaith y Canolfannau Cyfraith yn darparu cyllid sbarduno i edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu darpariaeth yng Ngogledd Cymru. Mae'r Grŵp Llywio yn ffurfio ac yn cyfarfod o bell i drafod sut y gallai Canolfan Gyfraith yng Ngogledd Cymru edrych a sut y gellid gwneud iddi ddigwydd.

**2022** Dyfernir cyllid i'r Grŵp Llywio ar gyfer Cam Datblygu a fydd yn para am flwyddyn. Caiff Rheolwr Datblygu ei recriwtio. Rydym yn cael grantiau sylweddol i lansio'r Ganolfan Gyfraith a'i hariannu'n rhannol am y tair blynedd gyntaf.

**2023** Rydym yn gwneud cais am ein contract Cymorth Cyfreithiol cyntaf, a Marc Ansawdd y Cyfreithwyr, ac yn dechrau recriwtio ein tîm yn barod i agor ein drysau yn haf 2023.



# CANOLFAN CYFRAITH NEWYDD AR GYFER GOGLEDD CYMRU

Mewn ymateb i'n hymchwil a'r anghenion rydym wedi eu nodi, bydd ein Canolfan Gyfraith yn y lle cyntaf yn darparu cyngor cyfreithiol arbenigol ynglŷn â materion tai a cham-drin domestig.

Mae ein model cyflawni yn cynnwys gwasanaethau allgymorth wyneb yn wyneb a digidol mewn lleoliadau gwledig ledled gogledd Cymru.

**Drwy weithio mewn partneriaeth bydd ein gweithwyr achos a'n cyfreithwyr yn darparu gwasanaeth mor ddirwystr ag sy'n bosibl, gan ddatblygu sgiliau a phrofiad mewn meysydd perthnasol o'r gyfraith. Bydd y gwasanaeth ar gael i bobl ledled gogledd Cymru, a bydd yn ymateb i'r anghenion penodol rydym yn eu gweld yn y gymuned wrth i'r gwasanaeth ddatblygu.**

Mae'r Ganolfan Gyfraith yn rhannu adeilad â Gwasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy, lle croesawus, â chyfarpar da, sydd wedi'i sefydlu mewn lleoliad strategol. Drwy leoli gwaith allgymorth mewn lleoedd y mae gan bobl hyder ynddynt yn y gymuned, megis banciau bwyd a llyfrgelloedd, rydym yn sicrhau bod ein gwreiddiau'n ddwfn yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.





Grŵp Llywio  
Canolfan Gyfraith y Gogledd  
North Wales Law Centre  
Steering Group

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen y canllaw hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, peidiwch ag oedi cyn cysylltu.

Heulwen  
Ffordd Glyn Y Marl  
Cyffordd Llandudno

Conwy

LL31 9NS

07789672434

[recruitment@nwlctestering.org.uk](mailto:recruitment@nwlctestering.org.uk)

[nwlctestering.org.uk](http://nwlctestering.org.uk)

Rhif elusen gofrestrdig: 1197787